

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Hydref 27ain 2014 yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul am 7.30y.h.

1. **10/14 PRESENNOL:** Cyngorwyr. Adrian Thomas[Cadeirydd], Jamie Ayres, John Crossley, John Crossley, Ian Davies, Brenda Jones, Nesta Jones, Mary Phillips, Marc Rees, Caroline Roberts, Dilwyn Smith., Clerc – Stella Jones
HEFYD YN BRESENNOL: Cyng.Sir - K Howell, PCSO Olivia Jones, Cyfieithydd.
2. **10/14 HEDDLU:** Yn dilyn cwynion am y gor yrru yn yr ardal mae'r heddlu yn bwriadu dod a peiriant mesur cyflymder ceir i'r ardal yn y dyfodol agos
3. **10/14 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Delyth Evans, John Wigley,
4. **10/14 COFNODION :** derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Misol Medi 29ain 2014 a'u cael yn gywir.
Cynigydd – Cyng. J Ayres
Eilydd – Cyng. D Smith
5. **10/14 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Dim
6. **10/14 MATERION YN CODI :**
11.i.06/14. Arwydd Cyflymder i Felindre – Andrew Morgan heb ddod nôl i'r Clerc a dyddiad ar gyfer ymweliad safle.
12.i.01/14. b) 'Audio Trail' – mae'r APP yn fyw un neu ddau beth angen cywiro ac yna bydd yn mynd i'r argraffwyr.
12.ii.04/14 Dŵr ar yr hewl tu allan i Meysydd, Felindre – T Williams o'r Cyngor Sir wedi dweud bydd y gwaith yn dechrau ym mhythefnos gyntaf Tachwedd.
12.v.05/14 Arwydd Cyflymder 30mya ym Mhentrecagal – dwedodd M Jacob o'r Cyngor Sir dylai fod mewn lle yn Ionawr 2015 a'r Llinellau Melyn yn Felindre, hyn i fod digwydd ddiwedd Mis Hydref.
7. **10/14 GOHEBIAETH:**
 - i. ULIC – Cyfarfod Rhanbarth Caerfyrddin – 28/10/14 Y Gât, Canolfan Crefftau Gorllewin Cymru, San Clêr am 7yh
 - ii. Gwasanaeth Sul y Cofio Llandysul yn Neuadd Tysul oherwydd difrod storm i'r eglwys
 - iii. e-bost –ULIC – Papur Gwyn Llywodraeth Cymru – cylchlythyrwyd a nodwyd
 - iv. e-bost –ULIC - Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru – cylchlythyrwyd a nodwyd
 - v. e-bost – Archwilio Cynllunio Cymunedol – cylchlythyrwyd a nodwyd
 - vi. e-bost – LILCymru - Adroddiad - IRPW – cylchlythyrwyd a nodwyd
 - vii. e-bost– Bwletin Rhanbarthol - Simon Thomas AC – cylchlythyrwyd
 - viii. e-bost – CSG – e-Pims Cofnodion Perchenogaeth eiddo Cyngorau Tref a Chymuned – cytunwyd i beidio a chofrestru i hwn.
 - ix. e-bost - LILCymru – Cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth i fusnesau cylchlythyrwyd
 - x. e-bost – CSG – Gwobr Chwaraeon Personoliaeth Sir Gâr – nodwyd
 - xi. e-bost – Dweud eich Dweud - Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru – cylchlythyrwyd a nodwyd
 - xii. CSG – Amnesti Teiars a Gwastraff – 19/11/2014 Maes parcio Marchnad CNE 8yb-1yp – nodwyd
 - xiii. CSG – Côt Ymddygiad – arolwg – Clerc wedi llenwi'r ffurflen briodol
 - xiv. Richards Bros – ymateb i lythyr y Clerc

8. 10/14 CYNLLUNIO

CEISIADAU CYNLLUNIO – YMGYNGHORI

Caniatâd

W/29133 – Mr Roger Broome, Penybanc Farm, Drefelin – cais arfaethedig codi tipis fel safle derbyniad priodas , gasibo ar gyfer lle cynnal priodas a chysiau dysgu hefyd cymeradwyaeth i safle gweryslla i 3 Iwrt

W/30686 - Matthew Broome, West Wales Trails Ltd, Tir ar Fferm Pen-y-Banc, Velindre SA44 5XE - datblygu canolfan sgiliau beiciau mynydd a chanolfan hyfforddi. Dyma'r cyntaf o'i fath yng Nghymru. Ar gyfer y datblygiad mae angen newid defnydd o 1 erw(0.4 hectar) o dir amaethyddol. Bydd hwn yn cael ei ffensio ar wahân i'r tir arall ond fe ddefnyddir yr un hewl

Cais Ymgynghori llawn

W/30995 – Mr&Mrs R J & MA Roberts, Brynhyfryd, Cwmpengraig SA44 5XS – adeilad arfaethedig o ffrâm/ porthol haearn, yn rhannol at ddefnydd marchogol a defnydd amaethyddol – *dim barn*

W/31000 – John Francis, tir ochr arall i Meysydd, Felindre, SA44 5YD – tynnu clawdd o'r hewl lawr trwy caeau cyffiniol SN3538 1882 SN3538 2174 – *dim barn*

W/31014 – L Hewson, Bryn Hedydd, Saron SA44 5DT – estyniad sengl un llawr i flaen y tŷ ar gyfer ystafell wely ychwanegol – *dim barn*

W/31024 – H Slaymaker, plot to rear of Bryn-Eithin, Rhos SA445HE – cais amlinellol i adeiladu tŷ sengl – *dim barn*

W/31037 – Gillian Bennison, Plot cyfagos i Bendith, Rhos SA44 5EF – adnewyddiad o cais cynllunio amlinellol W/10528 [adnewyddwyd dan cais W/25461] – *dim barn*

9. 10/14 MATERION ARIANNOL

a. Anfonebau

i. TRYWYDD – cyfieithu yng nghyfarfod 27/10/2014	£90.30
ii. HIRIO NEUADD Y DDRAIG GOCH – cyfarfod 29/09/14	£8.75
[caniatâd i dalu'r ddau uchod fel daw'r taleb fewn]	
iii. AUDIO TRAILS	£5,832.00
iv. LEWIS[Gwasg Gomer]	£477.00
v. LLINOS JONES[cyfieithu].....	£285.65
vi. IAN BOWLER[graffigwaith]	£300.00
vii. DŴR CYMRU[Cwmins Cwmhiraeth]	£17.41
viii. STELLA JONES(MEU CYMRU [Cysgair/Cysill])	£43.00
xi. STELLA JONES [CCL Laser cetrus inc pecyn o 2]	£93.37

Arian yn y Banc ar 09/10/2014.....£23,088.29

b. Credyd

Yswiriant am y Gliniadur

£66.66

c. Cais am Gefnogaeth Ariannol

Urdd Gobaith Cymru Cylch Llandysul - £50.00

Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau

10. 10/14 ADRODDIAD PWYLLGOR

Is bwyllgor trefnu Sul y Cofio - is bwyllgor wedi gwneud trefniadau terfynol – pawb i ymgynnull yn Ysgol Penboyr erbyn 9.45yb i gyd gerdded mewn i'r Eglwys Sant Barnabas. Mr Showell o Bentrecagal wedi cytuno canu'r trwm ped cyn y munud o dawelwch. Bydd y casgliad yn mynd i gronfa gofalu am y gofologofn cymeri'r y gwasanaeth gan y Ficer J Gillibrand.

11. 10/14 MATERION ANGEN TRAFODAETH

- Cadwyn y Cadeirydd – Cyng J Wigley ddim yn y cyfarfod i gyflwyno syniadau.
- Cofio'r Rhyfel Byd 1af – gweler yr adroddiad uchod, eitem 10.
- Ffyrdd o Godi Arian i Bwyllgor Parc - cytunwyd y dylid gwahodd cynrychiolwyr o'r ddau barc i gyfarfod y Cyngor, dim ond cynrychiolwyr o Barc Puw oedd yn bresennol.

12. 10/14 SYLWADAU'R CYNGHORWYR:

- Gofynnodd y Cyng K Howell os oedd rhywun yn gwybod gyda pwy oedd CD y gwaith ymchwil a wnaed ar y ffynhonnau yn yr ardal nifer o flynyddoedd yn ôl.

CYFARFOD NESAF

Cynhelir y Cyfarfod Misol nesaf Nos Lun, Tachwedd 24ain 2014, am 7.30y.h yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Felindre, Llandysul

Daeth y cyfarfod i ben am 8.40 y.h

_____ Cadeirydd

_____ Dyddiad